



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Ymateb i'r ymgynghoriad ar droseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol**

Hydref 2017

Cm 9518





## **Ymateb i'r ymgynghoriad ar droseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol**

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Hydref 2017



© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3) neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn [drivingconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:drivingconsultation@justice.gsi.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-0084-2

CCS1017205656          10/17

Argraffwyd ar bapur ag o leiaf 75% o'i gynnwys yn ffibrau wedi'u hailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

## Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	4
Cefndir	5
Crynodeb o'r ymatebion	7
Ymatebion i gwestiynau penodol	9
Casgliadau a chamau nesaf	15
Egwyddorion ymgynghori	17
Atodiad A – Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd	18

---

**Ymateb i'r ymgynghoriad ar droseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol**

**Ymateb i'r ymgynghoriad ar droseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol**

## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgyngori ar gyfer y papur ymgynghori, "Troseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol".

Mae'n cwmpasu:

- cefndir yr ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori o'r cyfeiriad isod:

**Driving Consultation  
Post Point 4.12  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ**

**Ffôn: 07896842181**

**E-bost: [drivingconsultation@justice.gov.uk](mailto:drivingconsultation@justice.gov.uk)**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/driving-offences-causing-death-or-serious-injury/>

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen drwy e-bostio [drivingconsultation@justice.gov.uk](mailto:drivingconsultation@justice.gov.uk) neu drwy ffonio 07896842181.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.



## Cefndir

1. Mae'r papur hwn yn nodi ymateb y llywodraeth i'w hymgyngoriad 'Troseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol' a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2016<sup>1</sup>.
2. Dilynodd y papur ymgynghori adolygiad mewnol o droseddau a chosbau gyrru, gan ganolbwyntio ar y troseddau difrifol a all arwain at farwolaeth neu anaf difrifol. Ystyriodd hyn ystod o bryderon a leisiwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan ddiodefswyr y troseddau hyn, aelodau'r cyhoedd a Seneddswyr. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, daeth y llywodraeth i'r casgliad nad oedd rhai newidiadau i'r gyfraith yn angenrheidiol nac yn ymarferol ond ceisiodd farn ar rai troseddau penodol sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol.
3. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar:
  - drosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal
  - cynyddu'r gosb uchaf am y troseddau cyfredol o achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ac achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau o 14 mlynedd o garchar i garchar am oes.
  - cyflwyno isafswm cyfnod y gwaharddiad i unrhyw farwolaeth drwy drosedd yrru.Yn ychwanegol at y cynigion penodol hyn, gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â newidiadau eraill neu ychwanegol i droseddau gyrru sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth ac anaf difrifol.
4. Nid oedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu troseddau gyrru na throseddau rheoleiddio eraill fel goryrru neu bennu terfynau yfed a gyrru, troseddau sylfaenol gyrru'n ddiotal neu'n beryglus a gyrru tra'n defnyddio ffôn symudol. Mae rhai o'r ymddygiadau hyn, fodd bynnag, yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn os ydynt yn ffactor a arweiniodd at farwolaeth neu anaf difrifol.
5. Ym mis Mawrth 2017, cynyddodd y llywodraeth y cosbau am ddefnyddio ffôn wrth yrru i 6 pwynt cosb a chosb benodedig o £200 - i fyny o'r 3 pwynt blaenorol a chosb o £100. I gyd-fynd â'r cynnydd, lansiodd y llywodraeth ymgyrch THINK! i rybuddio gyrrwyr am y cosbau newydd a'r peryglon o ddefnyddio ffonau symudol wrth yrru. Mae gosod cosbau uwch yn golygu goblygiadau penodol i yrwyr cerbydau masnachol mawr (HGVs, bysiau etc.) gan y bydd gweithredu cryf gan gomisiynwyr traffig, sy'n gyfrifol am reoleiddio gyrrwyr galwedigaethol, yn debygol o arwain at atal hawliad galwedigaethol am drosedd gyntaf o ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbydau o'r fath.
6. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 1 Chwefror 2017. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, ac mae'n nodi casgliadau a chymau nesaf y llywodraeth.

---

<sup>1</sup> <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/driving-offences-causing-death-or-serious-injury/>

**Ymateb i'r ymgynghoriad ar droseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol**

Ni roddwyd sylwadau cynhwysfawr i'r Aseiad Effaith gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, felly nid ydym wedi diwygio Aseiad Effaith y cyfnod ymgynghori.

Gellir dod o hyd i bapur ymateb Saesneg yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/driving-offences-causing-death-or-serious-injury/>

## Crynodeb o'r ymatebion

7. Derbyniwyd cyfanswm o 9,128 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Tynnwyd 13 o ymatebion o'r dadansoddiad gan mai dim ond enw neu fanylion e-bost a gwblhawyd a lle nad atebwyd unrhyw gwestiynau; roedd y ffurflen ar-lein yn gwbl wag; neu dderbyniwyd yr ymateb ddwywaith.
8. Adolygwyd 9,115 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer sylwadau am y cynigion penodol, lefelau'r gefnogaeth ar gyfer opsiynau ac unrhyw dystiolaeth o effaith y cynigion.
9. Roedd yr ymgynghoriad yn caniatáu i ymatebion gael eu cyflwyno ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Ymatebion ar-lein oedd y mwyaf poblogaidd gyda 99% o'r ymatebion yn cael eu cyflwyno fel hyn.
10. Derbyniwyd ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys swyddogion yr heddlu a'r rhai sy'n gweithio i'r gwasanaethau brys, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, ymarferwyr cyfiawnder troseddol, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, grwpiau diogelwch ffyrdd, cyrff sy'n cynrychioli gyrrwyr, hyfforddwyr gyrru, gweithwyr y diwydiant moduro, gan gynnwys cwmnïau cludo ar y ffyrdd, gyrrwyr proffesiynol eraill, ac aelodau'r cyhoedd oedd ddim yn gysylltiedig ag unrhyw grŵp neu fudiad penodol.
11. Derbyniwyd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad o ganlyniad i sawl deiseb ac ymgyrch ar-lein. Nid oedd pob un o'r rhain yn union yr un fath, felly maent wedi cael eu trin fel ymatebion unigol at ddibenion dadansoddi. Mae rhai o'r pwyntiau a godir yn yr ymgyrchoedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau unigol yn yr ymgynghoriad, ac mae'r crynodeb o bob cwestiwn yn cynnwys y sylwadau hyn, ond mae'r canlynol yn crynhoi prif bwyntiau pob ymgyrch neu ddeiseb:
  - Ymhlith yr ymatebion a gyflwynwyd gan aelodau'r cyhoedd oedd deiseb a grëwyd ar [change.org](http://change.org) ym mis Medi 2016. Mae'r ymateb wedi'i gyfrif fel un ymateb yn seiliedig ar yr atebion a ddarparwyd i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Roedd y ddeiseb, ag arni dros 3,400 o lofnodion, yn ymgyrchu dros waharddiadau oes i bob gyrrwr sy'n cael ei ddedfrydu o achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus; adolygiad o'r canllawiau dedfrydu i sicrhau bod gan farnwyr y pŵer i osod y ddedfryd uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus; a chynyddu cosbau yn unol â dynladdiad. Mae hefyd yn galw am gosbau llymach i droseddau gyrru eraill fel gyrru'n ddiotal, gyrru'n beryglus, goryrru'n sylweddol, yfed a gyrru, a gyrru dan ddylanwad cyffuriau, gan gynnwys gwaharddiadau gyrru am oes a chyfnodau hirach yn y carchar i'r rheiny sy'n ail-droseddu.
  - Derbyniwyd 29 o ymatebion hysbys i'r ymgynghoriad o ganlyniad i ddeiseb ar y wefan seneddol a ymgyrchodd i gyhuddiadau o ddynladdiad gael eu rhoi pan fydd marwolaeth ar y ffordd yn cael ei achosi gan rasio. Cafodd y ddeiseb hon ei chynnal am 6 mis a derbyniodd dros 11,000 o ymatebion pan ddaeth i ben ar 13 Chwefror 2017.
  - Cafwyd ymateb gan Johnston Press yn cyd-fynd ag ymgyrch yn y cyfryngau, "*Drive for Justice*", a deiseb ar-lein a lanswyd ar [change.org](http://change.org) ym mis Tachwedd 2016. Mae'r ymgyrch hon yn galw am "*deddfrydau llymach ar gyfer y troseddwyr*"

*gwaethaf; bod yr holl farwolaethau beius yn cael eu trin fel dynladdiad / lladd beius; cael mwy o waharddiadau gyrru a gwaharddiadau hirach - i'r rhai sy'n lladd neu'n anafu'n ddifrifol ar y ffyrdd, neu y mae eu gyrru'n peryglu anaf a marwolaeth; archwilio sut mae pobl yn aml yn cael eu herlyn am gyhuddiad llai difrifol o farwolaeth drwy yrru'n 'ddiofal' yn hytrach na marwolaeth drwy yrru'n 'beryglus'; cael gwared ar yr anghysondeb sy'n bodoli gydag achosion taro-a-ffoi; rhoi cyhuddiadau llymach hyd yn oed i'r rhai sy'n troseddu wrth yfed a gyrru neu o dan ddylanwad cyffuriau, goryrru, wedi'u gwahardd / colli eu trwydded, neu sy'n defnyddio eu ffonau symudol ". Mae hefyd yn galw ar y llywodraeth i ail-weithio canllawiau dedfrydu a darparu hyfforddiant arbenigol i farnwyr fel y gallant ddefnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael iddynt wrth benderfynu dedfrydau troseddwr. Hyd yma, mae'r ymgyrch barhaus wedi derbyn dros 3,000 o lofnodion.*

12. Nid oedd pawb a ymatebodd wedi ateb pob cwestiwn a dewisodd rhai ymatebwyr i gyflwyno eu hymateb fel testun mwy cyffredinol heb gyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad. Yn yr achosion hyn, lle mae sylwadau'n gysylltiedig â chwestiynau penodol yn y papur ymgynghori, maent wedi'u trin felly at ddibenion y dadansoddiad sy'n dilyn.
13. Mynegodd rhai ymatebwyr farn neu awgrymiadau oedd ddim yn ateb cwestiynau'r ymgynghoriad neu y tu allan i sgôp yr ymgynghoriad (o ganlyniad efallai na fydd y canrannau'n dod i 100). Er na ellir edrych ar yr awgrymiadau mwy cyffredinol sy'n dod y tu allan i sgôp yr ymgynghoriad yn yr ymateb hwn, bydd y llywodraeth yn eu hystyried wrth drafod unrhyw ddatblygiadau polisi yn y dyfodol.
14. Hoffai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn enwedig y rheini a rannodd brofiadau personol o droseddau traffig ar y ffyrdd.

## Ymatebion i gwestiynau penodol

### C1. A ddylid cael trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal?

15. Ar hyn o bryd, ceir dwy drosedd yrru o achosi anaf difrifol – achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus ac achosi anaf difrifol wrth yrru dan waharddiad. Gofynnodd yr ymgynghoriad os oedd angen creu trosedd newydd o achosi niwed difrifol drwy yrru'n ddiotal er mwyn llenwi bwlch posib yn y gyfraith.
16. O'r 8,880<sup>2</sup> o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 90% (7,981) o'r farn y dylid cael trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal; 4% (380) yn anghytuno a 6% (499) ddim yn siŵr.
17. Felly cafwyd cefnogaeth gref iawn i greu trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal. Nododd yr ymatebwyr fod yr achosion hyn yn aml yn arwain at anafiadau parhaol ac y gallent gael effaith ddinistriol ar y dioddefwyr. Nodwyd hefyd, er gwaethaf yr anafiadau difrifol, heb drosedd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal, gallai troseddwr ond gael eu cyhuddo o drosedd gyrru'n ddiotal â'r dirwy uchaf o ran cosb. Dywedwyd, er y byddai beusrwydd y gyrrwr yn cael ei ystyried yn isel, roedd y niwed a achoswyd gan y drosedd yn uchel. Byddai trosedd newydd yn pwysleisio'r cyfrifoldeb sydd gan yrwyr i ddefnyddwyr eraill y ffordd fawr a chydabod y niwed a achosir i ddioddefwyr.
18. Er nad oeddent yn gwrthwynebu creu'r drosedd, mynegwyd pryder gan nifer fach o ymatebwyr, y byddai trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal yn dod yn "norm" ac na fyddai'r drosedd fwy difrifol o achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus yn cael ei ddefnyddio mwyach mewn achosion priodol.
19. Nid oedd rhai ymatebwyr nad oeddent yn cytuno, neu'n ansicr, o'r angen am drosedd newydd, wedi'u hargyhoeddi o'r angen am drosedd newydd oherwydd nad oeddent o'r farn y byddai'n rhwystro pobl, o reidwydd, rhag gyrru'n wael. Roedd eraill oedd yn gwrthwynebu'r newid yn teimlo bod troseddau a chosbau presennol yn ddigonol ond y dylid eu gorfodi'n fwy effeithiol a chael dedfrydau uwch o fewn y cosbau uchaf sy'n bodoli'n barod.

### Q2. Os dylid, gan ystyried y cosbau uchaf am y troseddau sy'n bodoli, sef achosi anaf difrifol ac ymosodiad, a fyddai naill ai 2 neu 3 blynedd yn gosb uchaf briodol a chymesur am y drosedd newydd?

20. Gofynnodd yr ymgynghoriad beth ddylai'r gosb uchaf fod am drosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal. Nododd yr ymgynghoriad y gosb uchaf bresennol o 5 mlynedd o garchar am achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus ac awgrymodd uchafswm ar gyfer y drosedd o 2 neu 3 blynedd o garchar.

---

<sup>2</sup> Y nifer o ymatebion i bob cwestiwn yw nifer yr ymatebwyr a atebodd o leiaf un o elfennau'r cwestiwn.

21. Derbyniwyd 8,457 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a nododd y mwyafrif, 73% (6,163) y dylai'r gosb uchaf fod yn 3 blynedd o garchar neu fwy; gyda 6% (466) o'r farn y dylai fod yn 2 flynedd o garchar.
22. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau am y gosb uchaf ar gyfer y drosedd hon.
23. Mynegodd rhai ymatebion mai 3 blynedd oedd yr isafswm y dylid ei ystyried fel y gosb uchaf ar gyfer y drosedd. Awgrymodd sylwadau eraill fod y niwed a achoswyd yr un fath a phe bai'r gyrru'n ddiotal neu'n bodloni'r prawf mwy difrifol o yrru'n beryglus. Arweiniodd yr ymagwedd, lle'r oedd niwed ar ei ben ei hun yn effeithio ar y ddedfryd, at rai ymatebwyr i awgrymu y dylai'r uchafswm o 5 mlynedd wrth achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus hefyd fod yn berthnasol i achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal.

**Q3. A ydych yn meddwl bod y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn rhoi adlewyrchiad digonol o feusurwydd yr ymddygiad troseddol, neu a ddylid ei chynnyddu o 14 mlynedd o garchar i garchar am oes?**

24. Roedd 70% (5,809) o'r 8,305 o ymatebion i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylid cynyddu'r gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus i garchar am oes; 15% (1,263) o'r farn bod y 14 mlynedd bresennol yn ddigonol.
25. Dywedodd y rhai oedd yn cytuno â chynnydd yn y gosb uchaf y byddai'n rhoi pwerau dedfrydu llymach i'r llysoedd yn yr achosion mwyaf difrifol. Dadleuwyd hefyd y byddai cosb uwch yn adlewyrchu'n well feusurwydd ymddygiad gyrru peryglus a'r ffordd y mae rhai modurwyr yn anwybyddu defnyddwyr eraill y ffordd fawr.
26. Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd y dylai gweithredoedd gyrru bwriadol a gyfeiriwyd at ddefnyddwyr eraill y ffordd fawr gael eu dedfrydu am lofruddiaeth neu ddynladdiad. O dan y gyfraith bresennol, gall Gwasanaeth Erlyn y Goron ddedfrydu person am ddynladdiad lle mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r ddedfryd honno. Serch hynny, fel y nododd nifer o'r rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnydd, mewn nifer o achosion gyrru, nid yw'r ymddygiad troseddol, a allai fod yn hynod o anghyfrifol, yn awgrymu bod y cerbyd wedi'i ddefnyddio'n fwriadol fel arf i ladd neu i gyflawni niwed corfforol difrifol, felly ni fyddai'n gyfystyr â llofruddiaeth neu ddynladdiad.
27. Awgrymwyd hefyd y dylai achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ddenu'r un ddedfryd â llofruddiaeth neu ddynladdiad, oherwydd bod y niwed a achosir (marwolaeth y dioddefwr) yr un peth ym mhob un o'r tri throedd. Byddai cynyddu'r gosb uchaf am y drosedd hon yn galluogi'r llysoedd i osod dedfryd oes neu unrhyw ddedfryd llai, gan gynnwys dedfryd bendant o unrhyw hyd. Serch hynny, nid yw cynyddu'r gosb uchaf yn gwarantu dedfryd hirach wrth i benderfyniadau ynglŷn â dedfrydu barhau gyda'r llysoedd annibynnol a'u gwneud fesul achos.
28. Derbyniwyd sylwadau hefyd yn awgrymu y dylid gosod dedfrydau olynol am bob marwolaeth a achosir. Mae'n egwyddor gyfreithiol gyfarwydd y caiff dedfrydau eu gwneud ar yr un pryd pan fyddant yn ymwneud â'r un digwyddiadau, ac yn olynol pan fyddant yn ymwneud â digwyddiadau ar wahân. Serch hynny, bydd y llys yn gosod dedfryd sy'n adlewyrchu difrifoldeb yr holl ymddygiad troseddol. Felly, mewn amgylchiadau lle bydd nifer o farwolaethau wedi digwydd o ganlyniad i un

digwyddiad, bydd dedfrydau cyfredol yn cael eu gosod, ond bydd y llys yn ystyried nifer y dioddefwyr wrth osod hyd cyffredinol y ddedfryd.

29. Dywedodd y rhai nad oeddent yn cytuno â chynnydd fod yr uchafswm presennol o 14 mlynedd eisoes yn gosb ddirifol ac, yn hytrach na chynnyddu'r gosb uchaf presennol, dylai llysoedd allu defnyddio mwy o gosbau llym o fewn yr uchafswm sydd ar gael.
30. O blaid neu yn erbyn cynyddu'r gosb uchaf am y drosedd hon, derbyniwyd nifer o sylwadau yn awgrymu y dylai troseddwr gafodd eu dedfrydu o achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus wneud eu dedfryd gyfan yn y ddalfa heb yr hawl i gael eu rhyddhau'n gynnar am "*ymddygiad da*". Dylid pwysleisio na chaiff troseddwr eu rhyddhau yn gynnar am ymddygiad da. Bydd pob troseddwr sy'n derbyn dedfryd safonol, ar gyfer unrhyw drosedd gan gynnwys troseddau gyrru, yn cael ei ryddhau o'r ddalfa yn awtomatig ar ôl iddynt wneud hanner eu dedfryd. Mae hwn yn ofyniad statudol a nodir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Caiff troseddwr eu rhyddhau ar drwydded am weddill eu dedfryd a gellir eu galw yn ôl i'r ddalfa os ydynt yn torri telerau'r drwydded honno neu'n cyflawni trosedd arall. Dylid nodi hefyd bod unrhyw droseddwr sy'n cael ei ddedfrydu am drosedd yrru sy'n arwain at farwolaeth, yn cael ei eithrio rhag cael ei ryddhau'n gynnar o dan y cynllun cyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC), oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau'r rhyddhad.

**Q4. A ydych yn meddwl y dylai'r gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau adlewyrchu'r un beusrwydd (ac felly yr un gosb uchaf) ag achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus?**

31. Cafwyd 8,809 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn credu y dylai'r drosedd o achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad gael yr un lefel o feusrwydd, ac felly'r un gosb uchaf ag achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus. Yn y categori hwn, cafwyd ymatebwyr hefyd a awgrymodd y dylid ystyried gyrru'n fwriadol o dan ddylanwad diod neu gyffuriau yn awtomatig fel gyrru'n beryglus.
32. O'r rheini oedd o'r farn na ddylai'r gosb uchaf am y drosedd o achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau adlewyrchu'r un beusrwydd (ac felly'r un gosb uchaf) ag achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, awgrymodd rhai bod gyrru'n ddiotal o dan ddylanwad yn fwy difrifol na gyrru'n beryglus, ac y dylai'r gosb am y drosedd hon adlewyrchu bod penderfyniad bwriadol wedi'i wneud i yrru o dan ddylanwad. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai gyrru'n fwriadol o dan ddylanwad diod neu gyffuriau gael ei weld yn awtomatig fel gyrru'n beryglus. Hefyd, dywedwyd y dylai'r cosbau ar gyfer y ddwy drosedd hyn fod yn wahanol oherwydd bod lefel y beusrwydd yn llai ar gyfer achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad, oherwydd er bod y gyrrwr wedi cymryd alcohol neu gyffuriau, nid oedd hynny'n golygu eu bod wedi gyrru'n beryglus.

**Q5. A ddylid ystyried cynyddu isafswm cyfnod y gwaharddiad i droseddwr a ddyfernir yn euog o unrhyw drosedd achosi marwolaeth drwy yrru, ac os felly, pa mor hir ddylai isafswm y cyfnod fod yn eich tyb chi?**

33. Pan fydd troseddwr yn cael ei ddedfrydu o drosedd yrru ddifrifol, fel achosi marwolaeth neu yrru'n beryglus, byddant yn destun gwaharddiad gorfodol oni bai bod y llys o'r farn bod rhesymau arbennig pam y dylid gwahardd y troseddwr am gyfnod byrrach, neu ddim o gwbl. Dylai gwaharddiadau gorfodol fod am ddim llai na 12 mis. Am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau neu achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus, ni ddylai'r gwaharddiad gorfodol fod yn llai na 2 flynedd.
34. Cafwyd 8,795 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda'r mwyafrif, 84% (7,350), o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i gyfnod gwaharddiad hirach, 11% (926) ddim yn siŵr a dywedodd 5% (451) na ddylid cael unrhyw gynnydd.
35. O'r rheini oedd o blaid cyfnod gwaharddiad hirach, cafwyd ystod eang o gynigion ar gyfer y lleiafswm. Roedd y rhain yn amrywio o gynnydd bach o'r 2 flynedd gyfredol i waharddiad oes ar gyfer pob troseddwr a gafodd eu dedfrydu o achosi unrhyw farwolaeth drwy droseddau gyrru.
36. Awgrymodd 4% (368) o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn y dylid cynnal ail brawf gorfodol ym mhob achos o farwolaeth drwy yrru. O dan y gyfraith bresennol, mae'n rhaid i'r llys orchymyn ail brawf gorfodol pan fydd troseddwr yn cael ei wahardd am droseddau penodol. Mae'r troseddau hyn yn cynnwys achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus, gyrru'n beryglus ac achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau.
37. Derbyniwyd nifer o sylwadau yn awgrymu y dylai gwaharddiadau gyrru ddechrau unwaith y bydd troseddwr wedi'i ryddhau o'r ddalfa ac ddim yn cyd-redeg â dedfryd o garchar. Goblygiadau hynny yw na ddylid lleihau hyd gwaharddiad gyrru gan faint o amser y mae'r troseddwr yn y carchar. Mae gwaharddiad gyrru yn dechrau o'r diwrnod y caiff ei osod oherwydd pe bai'r gwaharddiad yn dechrau ar y pwynt rhyddhau arferol, sydd hanner ffordd drwy'r ddedfryd, gallai hyn arwain at sefyllfa lle gellid rhyddhau'r troseddwr yn gynt na hanner ffordd (ar drwydded ryddhau dros-dro) a byddai'n gallu gyrru cyn i gyfnod y gwaharddiad ddod i rym. Serch hynny, ers Ebrill 2015, mae statud yn gorfodi llysoedd, wrth osod dedfryd o garchar, i ymestyn y gwaharddiad gyrru i ystyried y cyfnod a dreuliyd yn y ddalfa.

**Q6. A oes unrhyw droseddau gyrru eraill sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol yr ydych yn meddwl y dylid eu newid? Os oes, pa newidiadau y dylid eu gwneud a pham?**

38. Dywedodd 3,522 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod yna newidiadau eraill y dylid eu gwneud i'r gyfraith. Fodd bynnag, nid oedd pob ymateb yn ehangu ar ba newidiadau roeddent yn eu cynnig. Nid oedd rhai awgrymiadau yn ymwneud â throseddau gyrru sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol nac i droseddau gyrru yn gyffredinol.



39. O'r sylwadau mwyaf cyffredin, roedd 26% (899) yn gysylltiedig â newidiadau i'r ffordd y dylai'r gyfraith neu'r llysoedd drin amgylchiadau penodol yn ymwneud â'r drosedd. Er enghraifft, roedd nifer o ymatebwyr yn awgrymu y dylai tystiolaeth o oryrru, neu yfed alcohol neu gymryd cyffuriau olygu bod troseddwr yn cael ei ystyried yn gyrru'n ddiotal neu'n beryglus, waeth beth yw safon eu gyrru, neu y dylid rhoi dedfrydau uwch os oedd defnyddio ffôn symudol yn un elfen o'r farwolaeth neu'r anaf difrifol.
40. Nododd 589 o ymatebion i'r ymgynghoriad at ymgyrch ar-lein "*Justice4George*" oedd yn argymhell newidiadau i'r gyfraith yn ymwneud ag yfed a gyrru. Mae'r ymgyrch yn dadlau bod diotalwch yn dechrau o'r amser y mae gyrrwr sy'n yfed a gyrru yn gwneud y penderfyniad i yrru. Golyga hynny y byddai unrhyw yrrwr sy'n gysylltiedig â gwrthdrawiad angheuol, a'i fod yn gyrru dros y terfyn yfed a gyrru, yn cael ei gyhuddo, fan lleiaf, o achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau, beth bynnag yw safon y gyrru.
41. Roedd 3% (105) o'r sylwadau'n ymwneud â'r methiant i roi'r gorau i droseddau, yn enwedig ehangu sgôp a chynyddu'r gosb uchaf am y drosedd. Dywedodd 2% (62) y dylid trin marwolaeth sy'n deillio o drosedd yrru mor ddifrifol ag unrhyw drosedd arall sy'n achosi marwolaeth, er enghraifft, dynladdiad.
42. Derbyniwyd rhai sylwadau yn cynnig cosbau uwch am yr holl droseddau gyrru sy'n ymwneud â defnyddio ffonau symudol ac roedd 4% (134) o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y dylid cael trosedd benodol ar gyfer achosi marwolaeth neu anaf difrifol wrth ddefnyddio ffôn symudol.
43. Yn fwy cyffredinol, nodwyd na fydd codi cosbau uchaf, na chreu trosedd newydd, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn atal gyrru diotal neu yrru peryglus, nac o reidrydd yn gwarantu cynnydd yn hyd dedfrydau. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai gorfodi'r mater yn fwy cyson yn ogystal ag addysg yrru yn fwy effeithiol wrth atal gyrru gwael a gwella diogelwch ar y ffyrdd.
44. Codwyd y gwahaniaeth rhwng gyrru diotal a gyrru peryglus hefyd fel pryder gan rai ymatebwyr. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y pryder bod y defnydd o'r gair "*diotal*" mewn perthynas â throseddau gyrru yn bychanu natur y drosedd ac yn sarhau teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth. Awgrymwyd na ddylai'r term "*diotal*" ymddangos yn y gyfraith, a dylid cyfeirio at y ffordd o yrru fel naill ai cyfreithlon neu anghyfreithlon. Yn yr un modd, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid newid y gwahaniaeth gyda throsedd 'gyrru gwael'. Derbyniwyd ymatebion hefyd y dylid cynnal adolygiad cyffredinol o'r gwahaniaeth rhwng troseddau gyrru diotal a gyrru peryglus.
45. Yn gyferbyniad i hynny, cafwyd ymatebion oedd yn cefnogi barn y llywodraeth, a nodir yn y ddogfen ymgynghori, nad oedd yn ddymunol diwygio'r gyfraith bresennol ynglŷn â gwahaniaethu rhwng gyrru diotal a pheryglus neu i greu trosedd 'gyrru gwael'.
46. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn wedi nodi pa newidiadau pellach eraill y dylid eu gwneud i droseddau gyrru. Lle gwnaed cynigion penodol, fe'u rhoddwyd mewn dau gategori eang; sylwadau ar y troseddau gyrru llai difrifol a sylwadau fyddai'n berthnasol i droseddau heblaw gyrru.

**Q7. A yw'r datganiad cydraddoldeb yn nodi'n gywir beth fyddai effaith y dewisiadau diwygio arfaethedig yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth fel y bo'n briodol.**

47. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010<sup>3</sup>, mae dyletswydd i ystyried effeithiau posibl unrhyw gynigion yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Cyflawnodd y llywodraeth y ddyletswydd hon yn yr ymgynghoriad.
48. Nid oedd 78% (6,608) o'r 8,464 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn siŵr os oedd y datganiad cydraddoldeb yn nodi graddau'r opsiynau arfaethedig yn gywir, cytunodd 17% (1,481) o'r ymatebion ei fod yn gwneud hynny a dywedodd 4% (319) nad oedd y datganiad cydraddoldeb yn nodi effeithiau'r cynigion yn gywir.
49. Yn gyffredinol, nid oedd nifer o'r sylwadau a gafwyd gan y 4% oedd yn anghytuno â'n datganiad cydraddoldeb, yn berthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd. Awgrymwyd bod angen i'r datganiad cydraddoldeb adlewyrchu effaith y golled ar deulu, gwaith, ffrindiau a'r gymuned ehangach; y dylid mynd i'r afael â dioddefwyr a'u hanghenion; a dywedwyd hefyd y dylid trin pawb yr un peth yn y materion hyn.
50. Asesiad y llywodraeth, yn dilyn yr ymgynghoriad, yw nad yw'r polisi yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb gan ei fod yn berthnasol yn gyfartal i'r holl bobl yr effeithir arnynt gan yr opsiynau diwygio arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori; nid ydym o'r farn y byddai'r opsiynau arfaethedig yn golygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig berthnasol.
51. Oherwydd bod nifer o ymatebwyr wedi dweud nad oeddent wedi gweld neu ddeall y Datganiad Cydraddoldeb, rydym am ailddatgan nad yw'r cynigion yr ymgynghorwyd â nhw yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol gan ein bod yn credu nad ydynt yn rhoi pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan anfantais arbennig o'u cymharu â phobl eraill nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

---

<sup>3</sup> Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- Cynyddu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai sydd ddim); a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai sydd ddim).

Mae angen ystyried rhoi 'sylw dyledus' i'r naw "nodwedd warchoddedig" o dan y Ddeddf Cydraddoldeb - sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

## **Casgliadau a chamau nesaf**

52. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cryn gefnogaeth i gynigion y llywodraeth i greu trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal ac i gynyddu'r cosbau uchaf am droseddau sy'n achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ac achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau o 14 mlynedd o garchar i garchar am oes.
53. Ystyriwyd safbwyntiau neu awgrymiadau sylweddol oedd y tu allan i sgôp yr ymgynghoriad ond eto'n berthnasol i droseddau gyrru a chosbau yn fwy cyffredinol, a byddant yn llywio datblygiadau polisi yn y dyfodol.

## **Trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal**

54. Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn o blaid trosedd newydd. Roeddent o'r farn y byddai'n adlewyrchu'r niwed a achosir i ddiodefwyr yn well ac y byddai'n cau bwlch clir yn y gyfraith. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd ynglŷn â'r gosb uchaf ar gyfer y trosedd hon, mae'r llywodraeth yn bwriadu rhoi ystyriaeth bellach i'r gosb uchaf ac i gyflwyno cynigion i greu'r trosedd newydd pan fydd amser seneddol yn caniatáu.

## **Y cosbau uchaf am droseddau sy'n achosi marwolaeth**

55. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd o'r farn nad oedd y gosb uchaf ar hyn o bryd am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn adlewyrchu beusrwydd y troseddwr, yn cytuno y dylid cynyddu'r gosb uchaf i garchar am oes.
56. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd y dylai'r gosb uchaf am y trosedd o achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau, adlewyrchu'r un beusrwydd ag achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, ac felly dylid cynyddu'r gosb uchaf ar gyfer y ddwy trosedd.
57. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cynigion, pan fydd amser seneddol yn caniatáu, i godi'r gosb uchaf ar gyfer achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ac achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau, i garchar am oes.

## **Isafswm y cyfnodau gwahardd**

58. Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth i gynyddu isafswm y cyfnod gwahardd i yrwyr a gafodd eu dedfrydu o achosi marwolaeth drwy droseddau gyrru. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn llai eglur ynglŷn â beth ddylai'r cyfnod gwahardd isaf fod (yn amrywio o gynnydd bach o'r 2 flynedd bresennol i waharddiad gorfodol am oes), sut y dylid ei gymhwyso a pha mor effeithiol allai fod fel dull o rwystro troseddau gyrru. Gwnaeth nifer o ymatebwyr y pwynt bod cyfnodau gwahardd yn bwysicach fel ffordd o rwystro troseddau gyrru llai difrifol cyn i'r gyrrwr fynd ymlaen i gyflawni troseddau mwy difrifol, a allai arwain at farwolaeth neu anaf difrifol.
59. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn, mae'r llywodraeth yn bwriadu rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig hwn, i ystyried gwaharddiadau ar gyfer pob trosedd ac unrhyw dystiolaeth sy'n

dod i'r amlwg ynglŷn ag effeithiolrwydd gwaharddiadau ac ail-brofi cyn cynnig newidiadau pellach i'r gyfraith

### **Materion eraill**

60. Mae'r llywodraeth yn cydnabod pryder rhai ymatebwyr ar gyfer profi beth yw gyrru'n ddiotal neu'n beryglus a'r eirfa a ddefnyddir o fewn y gyfraith. Mae'r papur ymgynghori yn nodi barn y llywodraeth bod y prawf gwrthrychol ar gyfer gyrru'n ddiotal a pheryglus yn ffordd bwysig ac ymarferol o asesu graddau beiusrwydd y troseddwr. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r llywodraeth yn parhau o'r farn mai'r prawf gwrthrychol sy'n ymwneud â safon gyrru yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau euogfarnau ac i ddiffinio troseddau a chosbau sy'n adlewyrchu'r niwed a achoswyd gan y drosedd a beiusrwydd y troseddwr. Fodd bynnag, bydd y llywodraeth yn rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y gall dioddefwyr a'r cyhoedd ddeall y prawf cyfreithiol a'r penderfyniadau a wneir yn well a'i wneud yn fwy tryloyw. Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr cyfiawnder troseddol a grwpiau dioddefwyr i archwilio ffyrdd o wella'r wybodaeth sydd ar gael drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol.
61. Mae'r llywodraeth yn adolygu'r troseddau a'r cosbau sydd ar gael i bob trosedd, ac yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau bod gan y llysoedd yr ystod lawn o bwerau sydd eu hangen arnynt i ddelio â throseddau gyrru. Roedd nifer o'r sylwadau hynny oedd â goblygiadau ehangach ar gyfer pob trosedd, yn delio â'r trefniadau ar gyfer rhyddhau troseddwyr. Unwaith eto, mae'r llywodraeth yn adolygu'r gyfraith a'r arferion yn ymwneud â rhyddhau troseddwyr a bydd yn parhau i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gosbi troseddwyr, amddiffyn y cyhoedd tra'n sicrhau y gellir adsefydlu troseddwyr yn y gymuned.

## Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth, yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

## Atodiad A – Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd

Yn ogystal ag ymatebion gan unigolion preifat, derbyniwyd ymatebion gan:

Cynghrair Gyrwyr Prydain  
Cyd-Gyngor Cenedlaethol Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy  
BLM Law  
Bradford Telegraph & Argus  
Brake  
British Cycling  
Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi – Is-bwyllgor Troseddol  
Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Swydd Durham a Darlington  
Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol  
Cynghrair Cyfiawnder Troseddol  
Gwasanaeth Erlyn y Goron  
Cycle Sheffield  
Cycling UK  
Cymdeithas yr Hyfforddwyr Gyrru  
Ymgyrch Seiclo Manceinion  
Healthier Futures CIC  
IAM RoadSmart  
Sefydliad Astudiaethau Alcohol  
Institute of Master Tutors of Driving (IMTD)  
Johnston Press plc  
Cymdeithas Gyfraith yr Alban  
Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain  
Heddlu'r Metropolitan  
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Durham  
Cyngor Ymgynghorol Seneddol ar Ddiogelwch Trafnidiaeth (PACTS)  
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Surrey  
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Manceinion  
Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai  
Sefydliad RAC  
RoadPeace  
Y Fainc De Ddwyrain Llundain  
Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd De Swydd Efrog  
Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr  
Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA)  
Transport for London

CCS1017205656

978-1-5286-0084-2